## Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD

**Nodyn er Gwybodaeth yn Unig**

## Y FENTER MASNACHWYR UNIGOL

### Cefndir

1. Amcan y fenter yw rhoi cymorth i fasnachwyr unigol i gyflogi'u gweithiwr cyntaf trwy (a) rhoi cymorth iddynt nodi unigolyn (neu unigolion) addas a (b) eu harwain drwy'r gweithdrefnau TWE ac Yswiriant Gwladol cysylltiedig. Mae'r cynllun felly'n helpu masnachwyr unigol i ehangu eu busnesau gan roi cymorth ar yr un pryd i greu cyfleoedd cyflogaeth newydd. Mae'r cynllun yn gweithredu yng Nghymru'n unig, ac mae'n unigryw hefyd o ran ei ddull o gynorthwyo busnesau gan ei fod wedi ei ganolbwyntio'n benodol ar fasnachwyr unigol.

2. Gweithredwyd y fenter ar ffurf cynllun peilot ym 1996-97 yn y Gogledd-Orllewin. Gan ei fod yn llwyddiant fe'i cyflwynwyd ledled Cymru o 1 Ebrill 1997 ymlaen. Mae tua 160,000 o fasnachwyr unigol yng Nghymru, felly mae'r farchnad bosibl yn helaeth iawn.

### Gweithredu

3. Mae'r fenter yn ffurfio rhan o raglen mentrau'r Cynghorau Hyfforddi a Menter (CHMau) yng Nghymru ac yn cael ei chyllido o dan gontract gyda'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n cael ei gweithredu mewn cysylltiad â'r Gwasanaeth Cyflogaeth (sy'n helpu i nodi gweithwyr posibl sy'n addas ar gyfer y masnachwyr unigol), yr asiantaethau mentrau lleol a Ffederasiwn y Busnesau Bach.

### Grwpiau a Dargedir

4. Mae'r fenter yn benodol yn anelu at gysylltu'r di-waith/anghyflogedig â masnachwyr unigol. Cynhwysir yma y rheiny sy'n dychwelyd i'r farchnad swyddi ar ôl seibiant yn eu gyrfa, etc.

### Swyddi

5. Cafodd dros 330 o swyddi eu creu drwy gyfrwng y fenter ym 1998-99 ac mae'r CHMau yn gweithio tuag at darged o 500 o swyddi yn y flwyddyn gyfredol.

Hydref 1999 Yr Adran Gwasanaethau Busnes